# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd, 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd W T Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Ann Griffith, John Griffith, Ken Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, Richard O. Jones, Nicola Roberts |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm – Rheoli Datblygu (NJ)<br>Cyfieithydd (JT)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol/Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Aelod Lleol – Y Cynghorydd Richard Dew (Eitem 2 yn unig) |

---

**1. 10C118A/RE – Cais llawn i leoli fferm arae heulol 15MW ar dir ger Bryn yr Odyn, Soar**

Aethpwyd i ymweld â'r safle ar argymhelliad y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2013.

Cyn ymweld â'r safle arfaethedig, edrychodd yr Aelodau ar y lleoliad o gilfan ar yr A55 er mwyn cael syniad o effaith weledol y datblygiad o'r wibffordd.

Ymwelodd yr Aelodau â safle'r datblygiad arfaethedig. Rhoes y Swyddog adroddiad manwl ar y cais a dangosodd i'r Aelodau gynllun i raddfa o'r cynnig.

Eglurodd y Swyddog y cynhaliwyd asesiad archeolegol yn yr ardal ac y gwnaed cytundeb gyda'r datblygwyr i sicrhau cadwraeth y safle archeolegol gerllaw.

Eglurodd y Swyddog hefyd y byddai adeilad ar gyfer trawsnewidydd yn cael ei adeiladu ar y safle ac y byddai ffens ddiogelwch 2m o uchder yn amgylchynu'r adeilad. Bydd ffens 2m o uchder hefyd yn amgylchynu'r cyfan o safle'r cais. Bwriedir cael cynllun i reoli'r gwrychoedd.

Edrychwyd ar y safle o sawl lleoliad ar daith gylchol o Walchmai; y lôn a oedd yn mynd dros y wibffordd yng Ngwalchmai; llwybr cyhoeddus yn agos at ffiniau'r datblygiad; croesffordd Dothan a lle uchel ar y B4422 yn ardal Capel Mawr.

**2. 28C483 – Cais llawn i leoli caban pren yn Sea Forth, Warren Road, Rhosneigr**

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd, 2013, penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ymweld â’r safle i asesu effeithiau posibl y cynnig ar y dirwedd o’i gwmpas ac ar eiddo cyfagos.

Eglurodd y Swyddog Cynllunio fod y cynnig yn un am dŷ haf, sef caban pren 2 ystafell wely gyda lolfa yn unig. Mae’n debyg mai trydan fyddai’n unig gyfleuster ynddo ac ni fyddai ynddo ddŵr o’r prif gyflenwad.

Holodd yr Aelodau ynghylch uchder a lleoliad y safle ar y lefel is.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio y byddai’r tŷ haf arfaethedig yn mesur 9m hyd) x 3.5 m (lled) x 2.43 m (uchder).

Dywedodd Aelod Lleol ar gyfer yr ardal, y Cynghorydd Richard Dew bod y cynnig yn un am gaban pren mawr heb unrhyw gyfleusterau. Byddai’n rhaid i’r sawl a fyddai’n aros yno fynd i’r prif dŷ i ymolchi a defnyddio’r toiled. Cyfeiriodd hefyd at y ffaith y byddai’r goleuadau halogen o bosib yn cael eu troi ymlaen ac i ffwrdd drwy gydol y nos.

Dywedodd y Swyddog Cynllunio wrth yr Aelodau y byddai ffenestri tai cyfagos yn edrych yn uniongyrchol dros y safle arfaethedig.

Edrychodd y Cynghorwyr ar y cyfleusterau parcio wrth y fynedfa i’r safle arfaethedig.

Dygodd y Cynghorydd Richard Dew sylw at yr ardal gyfyngedig a oedd ar gael o fewn cwrtil yr eiddo a’r lôn y tu allan iddo ar gyfer parcio ychwanegol.

**Y CYNGHORYDD W T HUGHES**
**CADEIRYDD**